Awyrluniau - Pen y Fan

Gobeithio y bydd y ddau lun hwn o gopaon uchaf Bannau Brycheiniog o fudd i athrawon daearyddiaeth a daeareg. Isod, cewch fanylion y mapiau Arolwg Ordnans y bydd eu hangen arnoch i wneud defnydd llawn o'r lluniau. Nid yw'r cwestiynau sydd yn dilyn ond yn awgrymu sbardun cyfleus i gychwyn y gwaith.

Cyhoeddir y lluniau trwy ganiatâd a chydweithrediad Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a dymunwn gydnabod eu cymorth gyda diolch.

MAPIAU AROLWG ORDNANS

Landranger 160	1:50 000	Bannau Brycheiniog
Outdoor Leisure 12	1:25 000	Bannau Brycheiniog – canolog

Llun 1	Pwynt A	Pen y Fan	[Cyfeirnod 013216]
	Pwynt B	Corn Du	
Llun 2	Pwynt D	Cronfa'r Neuadd	[Cyfeirnod 030190]

Llun 1 - - Hawlfraint y Goron: CBHC



Llun 2 - Hawlfraint y Goron: CBHC

1 Cwm pa afon (Llun 1, pwynt C) sydd y tu hwnt i Gorn Du?

2 Beth yw enwau'r ddwy gronfa y tu hwnt i Gronfa'r Neuadd? Pa afon sydd yn llifo drwyddynt?

3 Ai Pen y Fan neu Corn Du ydy pwynt Ch ar lun 2?

4 O ba gyfeiriad y cymerwyd y ddau lun?

5 Nodwch gynifer ag y medrwch o olion dyn ar y tirlun.

(Awgrym: beth yw'r gwahaniaeth rhwng *llyn* a *cronfa*?)